PRIFYSGOL BANGOR
AMODAU PRESWYLIO

1 Rhagarweiniad

1.1 Mae'r amodau yn y ddogfen hon yn gymwys i fyfyrwyr sy'n cytuno i gymryd llety sydd yn eiddo i'r Brifysgol, neu a brydlesir neu a reolir ganddi. **Maent yn rhan o'r Cytundeb Preswylio y bydd y myfyriwr yn ei dderbyn (fel rheol) ar-lein, a bydd iddynt rwymedigaeth gyfreithiol ar ôl i'r myfyriwr a'r Brifysgol gytuno ar yr amodau.** Daw'r cytundeb hwn dan gyfraith Loegr ac efallai y bydd myfyrwyr tramor yn ei gweld yn bur wahanol i'r gyfraith sydd mewn grym yn eu gwledydd eu hunain. Dylai myfyrwyr nad ydynt yn sicr ynghylch ymrwymo i'r Cytundeb Preswylio geisio cyngor cyn llofnodi.

1.2 DYLAI MYFYRWYR **DDARLLEN YR AMODAU PRESWYLIO** YN OFALUS A SICRHAU EU BOD YN BAROD I GYTUNO IDDYNT CYN **DERBYN** Y CYTUNDEB PRESWYLIO.

1.3 Er mwyn gwarchod buddiannau mwyafrif y myfyrwyr, os bydd myfyriwr yn torri'r Amodau Preswylio, gall y Brifysgol gymryd camau disgyblu, gofyn i'r myfyriwr dalu iawndal, neu derfynu'r Contract Preswylio, yn dibynnu pa mor ddifrifol yw'r tor-amod.

1.4 Yn yr Amodau Preswylio hyn, ystyr "myfyriwr" yw unrhyw un sy'n byw yn gyfreithiol yn llety'r Brifysgol.

1.5 Rhaid i fyfyrwyr anfon pob gohebiaeth am eu Cytundeb Preswylio i'r Swyddfa Neuaddau, Safle Ffriddoedd, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2GP, 01248 382667 neu e-bostio neuaddau@bangor.ac.uk ac eithrio lle noda'r Amodau Preswylio hyn i'r gwrthwyneb.

1.6 Lle bo'r Amodau Preswylio hyn yn mynnu bod y myfyriwr yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Brifysgol ac na all y Myfyriwr wneud hynny am resymau sydd a wnelont ag anabledd, gall y Myfyriwr ddefnyddio dull arall o gyfathrebu, ond mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol yn cadarnhau'r hysbysiad i'r Myfyriwr yn ysgrifenedig neu trwy gyfrwng parhaol arall.

2 Rhwymedigaethau'r Myfyriwr

2.1 Talu'r Tâl Preswylio i'r Brifysgol ymlaen llaw cyn neu ar y Dyddiadau Talu

Mae'r Tâl Preswylio a nodir yn y Cytundeb Preswylio am y Cyfnod Preswylio llawn a dylid ei dalu yn llawn adeg cofrestru oni ddewiswch dalu trwy ddebyd uniongyrchol neu dynnu'n rheolaidd o gerdyn credyd. Mae'r manylion llawn yn y wybodaeth am daliadau a ddarperir gan Swyddfa Gyllid y Brifysgol ym mhecyn cofrestru'r myfyrwyr. Dylai myfyrwyr Socrates, Erasmus a myfyrwyr cyfnewid neu ymweld eraill sy'n preswylio yma am 1 semester yn unig dalu yn ôl y cyfarwyddiadau ar yr atodlen dalu ar wahân a anfonir atynt gyda'u cytundeb preswylio.

Caiff unrhyw gostau ychwanegol a ddaw i ran y myfyriwr yn ystod y flwyddyn (er enghraifft, tâl am ddifrod) eu hychwanegu at gyfrif y myfyriwr a bydd y Brifysgol yn casglu'r tâl trwy ddebyd uniongyrchol neu dynnu'n rheolaidd o gerdyn credyd fel y gwelir yn y wybodaeth a ddarperir gan Swyddfa Gyllid y Brifysgol.

Mae costau'n dod i ran y Brifysgol lle bo tâl yn hwyr, a chaiff y costau hyn eu pasio ymlaen at y myfyrwyr sy'n gyfrifol. Bydd y Brifysgol yn ychwanegu ffi o £30 at gyfrif myfyriwr am bob llythyr atgoffa neu gais am dâl a anfona (ac eithrio am yr hysbysiad cyntaf am bob rhandaliad), neu lle mae siec yn bownsio neu lle nad oes digon o arian mewn cyfrif banc i dalu'r debyd uniongyrchol.

Os bydd yn rhaid i'r Brifysgol fynd i'r llys i adennill arian sy'n ddyledus gan fyfyriwr, bydd y Brifysgol yn ychwanegu at ei hawliad y costau a'r treuliau iawn a rhesymol, gan gynnwys ffioedd cyfreithiol a chost amser rheoli.

Dylai myfyrwyr sy'n mynd i drafferthion ariannol gysylltu â'r Swyddfa Gyllid cyn gynted ag y deuant yn ymwybodol fod problem yn debyg o godi. Gallai cysylltu'n gynnar arbed y Brifysgol rhag gorfod anfon nodyn atgoffa – a gall hyn arbed y ffi o £30. Po hwyaf yr oedir cyn talu, mwyaf fydd y ddyled, felly mae'n bwysig nad yw myfyrwyr yn anwybyddu eu rhwymedigaethau talu.

Dan reoliadau'r Brifysgol, gall y Brifysgol wrthod ailgofrestru neu ddyfarnu gradd i fyfyriwr sydd mewn dyled i'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn annhebygol o gynnig llety am Gyfnod Preswylio pellach i fyfyriwr sydd â **dyled Prifysgol** neu record ddrwg o dalu.

Os yw'r Tâl Preswylio 28 diwrnod yn hwyr, gall y Brifysgol – yn ychwanegol at fynd i'r llys i adennill y ddyled – derfynu'r Contract Preswylio a chymryd camau i droi'r myfyriwr allan. Caiff y costau a ddaw'n gywir a rhesymol i ran y Brifysgol trwy wneud hynny eu hychwanegu at y swm a hawlir oddi wrth y myfyriwr.

Lle bo'r Brifysgol yn cymryd camau llwyddiannus yn y llys i adennill y ddyled, cofnodir y dyfarniad ar gofnodion y llys sirol. Mae asiantaethau cyfeirio credyd yn chwilio trwy'r cofnodion hyn, a gall unrhyw fyfyriwr y mae ei h/enw yn ymddangos arnynt gael anhawster cael cerdyn credyd, cerdyn siop neu ffôn symudol … neu, mewn blynyddoedd i ddod, morgais.

Mae myfyrwyr yn atebol am y Tâl Preswylio am y Cyfnod Preswylio cyfan, oni therfynir y Cytundeb Preswylio yn un o'r ffyrdd a ddisgrifir yn yr Amodau Preswylio hyn. Ni ad-delir Tâl Preswylio am unrhyw gyfnodau o absenoldeb.

Lle bo myfyriwr yn cyrraedd yn hwyr, mae'r Tâl Preswylio yn daladwy o ddiwrnod cyntaf y Cyfnod Preswylio, er na fydd y myfyriwr, efallai, wedi bod yn trigo yno ers y dyddiad hwnnw.

2.2 Talu'r Blaendal i'r Brifysgol cyn y daw'r Cytundeb Preswylio i rym

Nodir swm y Blaendal ar Gytundeb Preswylio pob myfyriwr. Rhaid i fyfyrwyr dalu eu Blaendal pan fyddant yn derbyn y Cytundeb Preswylio ar-lein a'i ddychwelyd i'r Brifysgol. Ni fydd y Brifysgol yn cadw ystafell nes iddi dderbyn y Blaendal.

Dan Reoliadau Gwarchod y Defnyddiwr (Gwerthu o Bell) 2000, mae gan fyfyrwyr nad ydynt wedi cysylltu wyneb yn wyneb â'r Brifysgol cyn dod yn rhan o'r Cytundeb Preswylio yr hawl i ganslo'r Cytundeb Preswylio a chael ad-dalu eu Blaendal ar yr amod eu bod yn hysbysu'r Swyddfa Neuaddau yn ysgrifenedig (mae hyn yn cynnwys ffacs neu e-bost) am y canslo o fewn 7 diwrnod gwaith, gan gychwyn gyda'r diwrnod ar ôl y dyddiad y bu i'r myfyriwr a'r Brifysgol dderbyn y Cytundeb Preswylio.

Nid yw'r hawl i ganslo yn gymwys ar ôl i fyfyriwr ddod i fyw yn y llety.

Dylai unrhyw fyfyriwr sydd am ganslo hysbysu'r Swyddfa Neuaddau cyn gynted ag y bo modd, rhag i randal cyntaf y Tâl Preswylio gael ei godi arno, ond ni fydd y Brifysgol yn ad-dalu Blaendaliadau oni dderbynnir hysbysiad canslo yn ystod cyfnod canslo cymwys.

Yn ychwanegol at hawliau myfyrwyr dan Reoliadau Gwarchod y Defnyddiwr (Gwerthu o Bell) 2000, mae gan bob myfyriwr yr hawl i ganslo eu cais trwy ysgrifennu (gan gynnwys ffacs neu e-bost) at y Swyddfa Neuaddau (gweler amod 1.5). Os bydd y Swyddfa Neuaddau yn derbyn hysbysiad canslo erbyn 31 Awst, ad-delir y Blaendal.

Dylai unrhyw fyfyriwr sy'n disgwyl cyrraedd ar ôl diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswylio gysylltu â'r Swyddfa Neuaddau. Bydd y Swyddfa Neuaddau yn dal yr ystafell am 4 diwrnod wedi diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswylio, ond wedi hynny, gall ailosod yr ystafell.

Os nad yw myfyriwr wedi cyrraedd, ac na chysylltwyd â'r Swyddfa Neuaddau, bydd y Brifysgol yn ymdrechu'n rhesymol i gysylltu â hwyrddyfodiaid yn ystod 4 diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswylio. Os na wnaed cysylltiad rhwng myfyriwr a'r Brifysgol yn ystod 4 diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswylio, daw'r Cytundeb Preswylio i ben yn awtomatig ac ni chaiff y Blaendal ei ad-dalu.

Os gwneir cyswllt, mae modd cadw'r ystafell am 4 diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswylio. Os nad yw'r myfyriwr yn cyrraedd yn ystod y 4 diwrnod hwn, daw'r Cytundeb Preswylio i ben yn awtomatig ac ni chaiff y Blaendal ei ad-dalu.

Os gwneir cyswllt, a bod y myfyriwr angen i'r ystafell gael ei chadw am gyfnod hwy na 4 diwrnod, rhaid i'r myfyriwr dalu rhandaliad cyntaf y Tâl Preswylio ar unwaith, neu fe all y Brifysgol derfynu'r Cytundeb Preswylio 4 diwrnod wedi diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswylio, rhoi'r ystafell i fyfyriwr arall, ac ni chaiff y Blaendal ei ad-dalu.

Lle sicrhawyd lle i fyfyriwr yn llety'r Brifysgol, daw'r Cytundeb Preswylio i ben er hynny os na ddaeth y Myfyriwr i'r llety yn ystod 4 diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswylio (neu amser arall y cytunwyd arno yn ysgrifenedig gyda'r Brifysgol). Fodd bynnag, bydd llety dros dro ar gael i fyfyrwyr sy'n cyrraedd yn hwyr gyda lle'n **sicr** o gael ei gadw, hyd nes gellir gwneud trefniadau mwy parhaol.

Weithiau, ni fydd myfyrwyr yn medru cyrraedd oherwydd nad oeddent yn gallu cael fisa, neu am resymau eraill y tu hwnt i'w rheolaeth. **Dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r myfyriwr gysylltu â'r Swyddfa Neuaddau o fewn 4 diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswylio.** Bydd ar y Brifysgol angen prawf o'r rhesymau dros gyrraedd yn hwyr, a therfynir y Cytundeb Preswylio oni fydd y myfyriwr yn cyrraedd o fewn pedair wythnos gyntaf y Cyfnod Preswylio, a thalu rhandaliad cyntaf y Tâl Preswylio, neu os gofynna'r myfyriwr am derfynu'r cytundeb. Os bydd y Brifysgol yn rhesymol fodlon fod rheswm dilys pam na all y myfyriwr ddod i'r llety, gall y Brifysgol ad-dalu hyd at ddwy ran o dair o'r Blaendal **os gellir ail-osod yr ystafell a osodwyd yn wreiddiol.**

Ni adewir ystafelloedd yn wag dan unrhyw amgylchiadau am fwy na phedair wythnos wedi cychwyn y Cyfnod Preswylio ac ni dderbynnir ail ran na rhannau eraill y Tâl Preswylio oni fydd myfyriwr yn byw yn y llety.

Defnyddir y Blaendal fel rhagdaliad Tâl Preswylio (ac eithrio mewn llety teuluol lle caiff ei gadw fel blaendal difrod nes i'r deiliad adael yr eiddo). Yna, defnyddir y blaendal (ac eithrio mewn llety teuluol) i ostwng POB taliad dilynol sy'n ddyledus i'r Brifysgol. Dylai myfyrwyr sy'n dewis talu'r Tâl Preswylio mewn un lwmp swm adeg cofrestru sicrhau bod y blaendal o £300 yn cael ei ystyried.

2.3 Bwrw golwg ar gynnwys yr ystafell a rhoi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw ddiffyg ymhen 7 niwrnod o ddechrau'r Cyfnod Preswylio

Bydd y cynnwys yn amrywio yn ôl math yr ystafell, ond bydd yr holl ystafelloedd yn cynnwys

Gwely sengl	Desg	Wardrob	
Cadair esmwyth		Cadair syth	Llenni
Gorchudd llawr		Golau	

Gofynnir i bob myfyriwr fwrw golwg ar gynnwys yr ystafell ar ddechrau'r Cyfnod Preswylio. Ceir hysbysiad ym mhob ystafell sy'n rhestru cynnwys yr ystafell. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw bwrw

golwg ar y cynnwys a dweud wrth y Brifysgol am unrhyw eitem a ddifrodwyd neu sydd ar goll o fewn 7 niwrnod. Mae ffurflen yn eich llawlyfr i roi gwybod am eitemau sydd ar goll neu i wneud cais am waith cynnal a chadw. Os na chawsoch lawlyfr, cysylltwch â'r Swyddfa Neuaddau fel mater o frys i gael un os gwelwch yn dda.

Bydd y Brifysgol yn archwilio ystafelloedd ar derfyn y Cyfnod Preswylio a bydd yn codi ar y myfyriwr unrhyw gostau adfer difrod (ac eithrio am draul arferol) neu ddiffyg oni chrybwyllwyd yr anghysondeb o fewn y terfyn 7 niwrnod.

OS NA FYDDWCH YN RHOI GWYBOD I NI AM UNRHYW BROBLEMAU FEL Y GOFYNNWYD, EFALLAI Y CODIR ARNOCH AM UNRHYW EITEMAU Y GWELIR EU BOD WEDI EU DIFRODI NEU AR GOLL PAN ARCHWILIR EICH YSTAFELL. RYDYM YN ARGYMELL Y DYLECH GADW COPI O UNRHYW ADRODDIAD A ANFONIR GENNYCH.

Ni ddarperir y canlynol:
Llestri coginio, llestri, sosbenni, cadachau llestri, hylif golchi llestri
Deunyddiau glanhau
Tyweli
Llieiniau*
Papur tŷ bach mewn ystafelloedd *en-suite*

Mae modd prynu eitemau a nodir â * gan y Brifysgol - gweler yr adran wybodaeth yn y Llawlyfr Myfyriwr hwn.

2.4 Cadw'r Llety, y Cynnwys ac (ar y cyd â'r myfyrwyr eraill) y Mannau Cyffredin yn lân a thaclus, a'u gadael yn lân a thaclus ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio

Mae pob myfyriwr yn gyfrifol am gadw ei ystafell ei hun yn lân ac yn daclus. Mewn rhai neuaddau, darperir hwfer, ond mewn neuaddau eraill, mae modd trefnu defnyddio hwfer gyda'r aelod staff domestig sy'n gyfrifol am y neuadd. Mae myfyrwyr mewn ystafelloedd en-suite yn gyfrifol am lanhau eu hystafell gawod eu hunain.

Mae'r Brifysgol yn archwilio ystafelloedd, a lle nad yw myfyriwr yn cadw at yr amod hwn, bydd y Brifysgol yn rhoi rhybudd i'r myfyriwr yn gofyn am i bethau gael eu hunioni ymhen wythnos. Os na chafwyd gwelliant ar ôl archwiliad pellach, gall y Brifysgol ddefnyddio glanhawyr proffesiynol a chodi cost gwneud hynny ar y myfyriwr (gan gynnwys ffi weinyddu o £10.00).

Mae pob myfyriwr yn gyfrifol am lanhau a thacluso wedi iddynt ddefnyddio'r Mannau Cyffredin. Mae hyn yn cynnwys golchi a chadw unrhyw offer a ddefnyddiwyd, a glanhau unrhyw beth a gollwyd ar y bwrdd gweithio, y popty neu'r llawr neu yn yr oergell.

Mae'r Brifysgol yn trefnu bod y Mannau Cyffredin yn cael eu glanhau'n rheolaidd, ond ni fydd glanhawr yn golchi llestri nac yn tacluso ar ôl y myfyrwyr.

Os nad yw myfyrwyr yn cydymffurfio â'r amod hwn, yna bydd y Brifysgol yn gweithredu fel a ganlyn:

(a) cyflwyno rhybudd i'r myfyrwyr yn gofyn iddynt unioni pethau ymhen wythnos. Os na chafwyd gwelliant ar ôl archwiliad pellach, gall y Brifysgol ddefnyddio glanhawyr proffesiynol i wneud yr hyn y dylai'r myfyrwyr fod wedi ei wneud a chodi cost gwneud hynny (gan gynnwys ffi weinyddu o £25) ar y grŵp o fyfyrwyr. Os bydd unrhyw fyfyriwr yn teimlo y codwyd y gost yn annheg, gall gwyno i'r Swyddfa Neuaddau; ac/neu

(b) peidio â darparu gwasanaethau glanhau, heb ad-dalu'r Tâl Preswylio, nes bod cyflwr y Mannau Cyffredin yn gwella.

Lle gwyddys fod unrhyw fyfyriwr/fyfyrwyr yn torri'r amod hwn yn gyson, gall y mater gael ei drin fel mater disgyblu. Dan yr Amodau Preswylio hyn, gall torri'r amodau yn gyson arwain at ddirwyon a/neu derfynu Cytundeb Preswylio'r Myfyriwr.

Rhaid gadael y llety yn lân a thaclus ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio (ar ddiwedd pob tymor llety, lle gadewir y llety dros gyfnodau gwyliau'r Nadolig a'r Pasg). Oni adewir y Llety yn lân a thaclus, codir ar y Myfyriwr am gostau rhesymol glanhau'r llety.

Ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio (ar ddiwedd pob tymor llety, lle gadewir y llety dros gyfnodau gwyliau'r Nadolig a'r Pasg), rhaid gadael yr holl Gynnwys yn yr un safle ag yr oeddent ar ddechrau'r Cyfnod Preswylio.

Ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio (ar ddiwedd pob tymor llety, lle gadewir y llety dros gyfnodau gwyliau'r Nadolig a'r Pasg) bydd y Brifysgol yn cymryd o'r Llety unrhyw eitemau nad ydynt yn rhan o'r Cynnwys. Ceir gwared ar eitemau darfodus ar unwaith. Cedwir eitemau eraill gan y Brifysgol am gyfnod o 7 niwrnod, ac wedi hynny gall y Brifysgol gael gwared ar yr eitemau hyn yn ôl eu doethineb. Os bydd y Brifysgol yn gwerthu'r eitemau, bydd y Brifysgol yn tynnu £10 o ffi weinyddol o elw unrhyw werthiant, a defnyddio'r gweddill i wneud iawn am unrhyw ddyled sydd ar y myfyriwr i'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn anfon unrhyw arian dros ben ymlaen at y myfyriwr (isafswm o £10). Os na fydd modd dod o hyd i'r myfyriwr (gan ddefnyddio ymdrechion rhesymol), neu lle bo'r swm dros ben yn is na £10, anfonir yr elw at elusen. Os bydd y Brifysgol yn defnyddio rhywun i ddarganfod y myfyriwr, tynnir y costau o elw'r gwerthiant.

Rhaid i fyfyrwyr mewn llety sydd i'w wagio ar un o'r gwyliau semester, neu ddau ohonynt, symud eu heiddo oddi yno ar derfyn pob tymor llety oni bai fod y Brifysgol yn eu hysbysu yn ysgrifenedig nad os raid iddynt wneud hynny. Mae dyddiadau'r cyfnod preswylio wedi eu nodi'n glir ar y Cytundeb Preswylio.

2.5 Peidio â symud o'r Llety, y Mannau Cyffredin, yr Adeilad neu'r Cynnwys, gosod unrhyw beth arnynt, eu newid, eu difrodi neu geisio trwsio'u hadeiladwaith neu eu haddurniad

Mae difrod damweiniol yn digwydd, a lle rhoddir gwybod am hyn i'r Swyddfa Neuaddau ar unwaith, mae gan y Brifysgol yr hawl i beidio â chodi am y difrod, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'n annhebygol yr edrychir ar ddifrod a achosir oherwydd esgeulustod neu ddiofalwch fel difrod damweiniol.

Yn achos difrod arall, bydd y Brifysgol yn codi ar y Myfyriwr union gost unioni'r difrod a ffi weinyddu o £10 i £25 (yn dibynnu ar faint a natur y difrod). Ceir rhestr o gostau am ddifrod (heb fod yn un cyflawn) ar ddiwedd yr Amodau Preswylio hyn.

Lle bo'r Brifysgol yn rhesymol ystyried bod y difrod yn fwriadol, diofal neu'n esgeulus dros ben, gall y Brifysgol drin y mater fe un disgyblaethol yn ogystal â chodi am gost adnewyddu neu drwsio. Mewn achosion difrifol neu gyson, gall y Brifysgol hefyd derfynu'r Cytundeb Preswylio.

Nid yw'r rhestr isod yn gyflawn, ond y mae'n disgrifio'r math o ddifrod sy'n digwydd amlaf, ac y dylai myfyrwyr geisio ei osgoi:

- ni ddylai myfyrwyr ddefnyddio sosbenni gwneud sglodion;

- arddangos sticeri, hysbysiadau, negeseuon ac ati ar waliau a'r drysau; dylai myfyrwyr ddefnyddio hysbysfyrddau yn unig ar gyfer hyn;

- defnyddio tâp gludiog neu sticeri ar arwynebau addurnol

- marcio dodrefn – symudwch ef yn ofalus, ceisio osgoi sgriffiadau, a chymerwch ofal gyda hylifau a chwistrellau (fel persawr)

- marcio gorchuddion lloriau – haearnau smwddio, olew, gwin etc.

- gosod paent, staen, stensiliau neu bapur wal

- cau unrhyw bibelli neu ddraeniau

- peidio â gwneud yn siŵr fod llen y gawod wedi ei osod yn iawn y tu mewn i'r gawod

- hongian golch o'r nenfwd

- sychu dillad yn unman lle nad oes awyru digonol

- sychu dillad ar y gwresogydd ystafell oherwydd gallai achosi perygl tân

- newid y llenni

Ni ddylai myfyrwyr osod (na threfnu i eraill osod) unrhyw gebl, erial, dysgl lloeren na chyfarpar arall (yn cynnwys llinellau ffôn) wrth unrhyw ran o'r adeilad. Mae hyn yn cynnwys llety ar gyfer teuluoedd.

2.6 Lle ceir difrod neu golled yn y Llety a lle nad oes modd i'r Brifysgol (trwy weithredu'n rhesymol) ddarganfod pwy sydd ar fai, talu cyfran deg a rhesymol o gost trwsio'r difrod neu wneud iawn am y golled gan gynnwys cyfran o'r ffi weinyddu o £25

Mae hyn yn debycaf o ddigwydd yn y Mannau Cyffredin y tu mewn i'r Adeilad. Lle bo difrod yn digwydd y tu allan i'r Adeilad, ac mai barn resymol y Brifysgol yw nad myfyrwyr a'i hachosodd, bydd y Brifysgol yn trin y difrod fel cais yswiriant lle bo modd.

Os tybia unrhyw fyfyriwr yn rhesymol na ddylid codi arni/o (er enghraifft, lle medrant brofi eu bod i ffwrdd ar y pryd) gallant gyflwyno eu gwrthwynebiad i'r Swyddfa Neuaddau i ddechrau. Os cadarnheir y gwrthwynebiad, gall hyn olygu bod y myfyrwyr eraill yn yr Adeilad yn gorfod talu cyfran fwy.

2.7 Dweud wrth y Brifysgol am unrhyw ddifrod neu ddiffyg trwsio neu fethiant yn y gwasanaethau o fewn 24 awr o fod yn ymwybodol ohono

Dylid dweud wrth y Swyddfa Neuaddau am unrhyw ddifrod ac unrhyw beth sydd angen ei drwsio. Mae Ffurflenni Cais Cynnal a Chadw ar gael yn y Swyddfa Neuaddau a gellir rhoi gwybod am faterion cynnal a chadw hefyd drwy e-bost at neauddau@bangor.ac.uk. Mewn llawer o achosion, mae'n well dweud yn syth bin, rhag i ddifrod waethygu os na wneir rhywbeth yn ei gylch. Os digwydd mwy o ddifrod o ganlyniad i fethiant myfyriwr i grybwyll yr angen am drwsio, gall y Brifysgol geisio adennill cost y difrod hwnnw gan y myfyriwr. Nid oes rheidrwydd ar y Brifysgol i wneud gwaith trwsio nad oedd yn ymwybodol ohono, ac na allasai'n rhesymol fod yn gwybod amdano, hyd oni roddir hysbysiad.

Bydd y Brifysgol yn ymdrin â nam ar sail blaenoriaeth, ac yn gwneud gwaith trwsio cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Nid yw'r Brifysgol yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod (megis data coll neu fwyd wedi dadmer) sy'n deillio o doriad yn y cyflenwad trydan neu ddŵr, neu sy'n codi o fethiant cyfarpar, onid achoswyd hyn gan esgeulustod y Brifysgol neu ei methiant i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau yn yr Amodau Preswylio hyn.

Bydd y Brifysgol yn codi ar y myfyriwr gost iawn a rhesymol trwsio neu adnewyddu unrhyw ddifrod a achoswyd gan y myfyriwr.

2.8 Peidio â gwneud unrhyw beth a allai beri difrod i osodiadau neu gyfarpar trydanol yn y Llety

Rhaid i fyfyrwyr ofalu bod unrhyw gyfarpar trydanol a ddeuant gyda hwy wedi pasio'r Prawf Offer Cludadwy yn ddiweddar. Mae gan y Brifysgol yr hawl i wirio cyfarpar trydanol myfyrwyr fel rhan o archwiliadau ystafell, ac os ystyrir yn rhesymol bod unrhyw gyfarpar yn anniogel, mynnu bod y myfyriwr yn ei anfon am brawf (ar draul y myfyriwr). Gall y Brifysgol symud cyfarpar trydanol anniogel neu na chafodd brawf ond bydd yn rhoi derbynneb i'r myfyriwr amdano ac yn ei ddychwelyd ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio.

Dim ond cyfarpar watedd isel y gall myfyrwyr eu defnyddio yn yr adeilad. Ymhlith enghreifftiau o gyfarpar o'r fath mae setiau radio, systemau cerdd cludadwy, cyfrifiaduron personol, setiau teledu a sychwyr gwallt.

Ni ddylai myfyrwyr ddod ag unrhyw offer gwresogi ychwanegol i'r adeilad. Ni ddylai myfyrwyr ddefnyddio offer coginio megis tegelli, tostwyr, poptai microdon, griliau trydan, platiau poeth, ffriwyr saim dwfn na stofiau gwersylla yn y Llety dan unrhyw amgylchiadau oni bai eu bod yn cael eu cyflenwi gan y Brifysgol. Gellir defnyddio sosbenni reis a brynwyd yn y DU ac sy'n addas i'w defnyddio gyda chyflenwad trydan y DU. Ond ni chaniateir sosbenni reis o dramor gydag addasydd trydanol ac NI DDYLID eu defnyddio yn y ceginau.

Ni chaniateir defnyddio sosban reis mewn ystafelloedd gwely myfyrwyr a rhaid i bob sosban reis dros un oed gael prawf PAT gyda'r myfyriwr yn talu am y prawf.

Rhaid i geblau estyniad gael eu hagor yn gyfan gwbl ac ni ddylid eu llwytho fwy na'r hyn a ganiateir ar eu cyfer. Rhaid iddynt gynnwys dull o warchod rhag ymchwydd trydanol (*surge protection*) a dim mwy na 4 o socedi ychwanegol. Mae'n rhaid i bob cebl estyniad gael prawf PAT. Dylai ceblau fod yn ddigon hir ar gyfer y dasg; ni ddylid eu tynnu'n dynn na'u cysylltu â'i gilydd. Rhaid gofalu na fydd y cebl yn berygl i unrhyw un faglu drosto ac ni ddylid ei orchuddio â dillad neu unrhyw ddeunydd arall a allai achosi i'r cebl orboethi. Mae defnyddio cebl estyniad yn yr ystafell ymolchi yn cael ei wahardd yn llwyr. Ni cheir defnyddio addasydd plwg 2-Ffordd a 3-Ffordd chwaith.

Gall myfyrwyr ddefnyddio oergelloedd personol yn y Llety dim ond os oes eu hangen i storio meddyginiaethau, a rhaid iddynt roi gwybod i'r Swyddfa Neuaddau ymlaen llaw.

Ni ddylai myfyrwyr ddod â pheiriannau golchi llestri, peiriannau golchi dillad na'u peiriant sychu dillad eu hunain.

2.9 Caniatáu i'r Brifysgol ar adegau rhesymol i ddod i'r Llety at ddibenion archwilio, glanhau, gwneud gwaith cynnal neu drwsio

Ni fydd y Brifysgol fel rheol yn archwilio ystafelloedd fwy nag unwaith y tymor llety. Bydd y Brifysgol yn ceisio rhoi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i fyfyrwyr am archwiliadau ystafell, trwy e-bost, ond hwyrach na fydd hyn bob amser yn ymarferol. Mae'n annhebygol y bydd yn ymarferol rhoi rhybudd pan mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw neu drwsio.

Rhaid i fyfyrwyr hefyd ganiatáu mynediad i gontractwyr awdurdodedig y Brifysgol.

2.10 Peidio â gwneud dim a all fod yn berygl tân neu mewn unrhyw ffordd arall, beryglu iechyd a diogelwch eraill neu eiddo'r Brifysgol

Rhaid i bob myfyriwr sy'n aros mewn neuadd breswyl gwblhau'r modiwl iechyd a diogelwch pan fyddant yn derbyn eu Cytundeb Preswylio ar-lein, neu mor fuan ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny. Os byddwch yn methu â chwblhau'r modiwl, bydd y Brifysgol yn trin hyn fel torri Amodau Preswylio, a all arwain at ddirwy o £25.00, neu mewn amgylchiadau eithafol, derfynu'r Cytundeb Preswylio.

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn Llawlyfr Myfyrwyr Prifysgol Bangor, a dylai Myfyrwyr ymgyfarwyddo ag ef. Os bydd myfyriwr yn torri'r Polisi Iechyd a Diogelwch, bydd y Brifysgol fel arfer yn trin hyn fel torri'r Amodau Preswylio hyn yn ddifrifol, a gall arwain at derfynu'r Cytundeb Preswylio.

Mae rhybuddion rhagofalon tân mewn mannau drwy'r adeilad, a dylai myfyrwyr ymgyfarwyddo â'r drefn o adael.

Mae tân yn fater difrifol iawn mewn neuaddau preswyl, lle mae nifer fawr iawn o bobl yn byw yn agos at ei gilydd. Gall achosi perygl tân fod yn drosedd ddisgyblaethol neu yn dor-cyfraith, yn ogystal â thorri Amodau Preswylio.

Damweiniau neu esgeulustod, yn hytrach na gweithred fwriadol neu ddi-hid, sydd fel rheol yn achosi tanau. Dyma rai o'r achosion mwyaf tebygol:

- canhwyllau, lampau olew, arogldarth – ni ddylai myfyrwyr losgi unrhyw beth sydd â fflam agored yn yr adeilad (ac eithrio am boptái nwy mewn rhai ceginau)
- tân gwyllt – ni ddylai myfyrwyr ddefnyddio na chadw tân gwyllt yn yr adeilad nac ar y campws
- ysmygu – ni chaiff myfyrwyr ysmygu yn unman yn eiddo'r Brifysgol, nac o fewn 5 metr i unrhyw adeilad y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys Neuaddau Preswyl.
- posteri – ni ddylai myfyrwyr arddangos y rhain yn unman ond ar yr hysbysfyrddau
- sosbenni sglodion – ni ddylid defnyddio'r rhain o gwbl
- rhwystro drysau tân neu lwybrau dianc rhag tân
- cadw drysau ar agor fel nad oes modd eu cau
- dodrefn – ni chaiff myfyrwyr ddod â'u dodrefn eu hunain
- coginio heb aros yno i wylio drosto

Bydd y Brifysgol yn trin tanau bwriadol neu ymyrryd â chyfarpar canfod ac atal tân fel achosion o dorri difrifol ar yr Amodau Preswylio ac fe fyddant fel rheol yn terfynu'r Cytundeb Preswylio.

Hefyd, gall y Brifysgol drin y mater fel achos disgyblu. Lle bo gan y Brifysgol reswm i gredu fod y myfyriwr wedi cyflawni trosedd, bydd y Brifysgol yn cyfeirio'r mater at yr awdurdodau. Bydd methu ag ymateb i ddril tân hefyd yn achos difrifol o dorri'r Amodau Preswylio hyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae myfyrwyr mewn prifysgolion eraill wedi eu herlyn a'u carcharu am gychwyn larymau tân yn fwriadol.

Bydd y Brifysgol yn pasio ymlaen i fyfyrwyr unrhyw gostau a ddaeth yn briodol i'w rhan o gael cyfarpar wedi ei wirio, ei ailosod neu ei brofi wedi iddo gael ei weithredu heb achos da. Os na wyddys pwy oedd yn gyfrifol am ei gychwyn, caiff y costau eu trin fel taliadau difrod ar y cyd dan amod 2.6.

Mater o synnwyr cyffredin ac ystyried eraill, i raddau helaeth, yw iechyd a diogelwch. Yn ychwanegol at y rhagofalon tân, fe welir isod restr – heb fod yn gyflawn – o bethau fyddai'n debyg o beryglu iechyd a diogelwch eraill, neu eiddo'r Brifysgol:

- gemau pêl ger adeiladau neu mewn meysydd parcio
- barbeciws (mwg, sŵn, difrod i'r tiroedd)
- gadael bwyd i bydru
- cyfarpar trydanol diffygiol neu orlwytho'r gosodiadau trydan
- niwsans sŵn cyson
- aflonyddu
- bygythiadau neu ddifenwi geiriol
- rhedeg mewn coridorau
- partïon
- anifeiliaid anwes (heblaw am anifeiliaid cymorth)
- annog anifeiliaid gwyllt i ddod i'r adeiladau
- salwch heintus
- methu â sychu defnydd a gollwyd neu rybuddio fod llawr yn wlyb
- gosod eitemau ar sil ffenestri allanol
- eistedd ar sil ffenestri
- taflu pethau allan trwy'r ffenestr
- gadael ffenestr ar agor mewn gwyntoedd cryf

Ni chaiff myfyrwyr ddod ag unrhyw arf nac arf ffug (nac eitem y gellir ei ddefnyddio felly) i'r campws, hyd yn oed os oes ganddynt drwydded ar ei gyfer. Os oes gan fyfyriwr eitem o'r fath ar y campws, gall y Brifysgol ofyn i'r myfyriwr ei gyflwyno er mwyn cael ei gadw'n ddiogel (a bydd yn rhoi derbynneb i'r myfyriwr fel y gall ei gael yn ôl ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio (oni bai i'r heddlu ei gymryd)). Bydd gwrthod rhoi'r eitem yn torri'r Amodau Preswylio hyn yn ddifrifol a gall olygu y bydd y Brifysgol yn terfynu'r Cytundeb Preswylio. Gall y Brifysgol ddweud wrth yr heddlu fod gan rywun arfau neu arfau ffug neu eitemau eraill y gellir ei ddefnyddio felly, a gallant roi iddynt unrhyw eitem a ildiwyd gan fyfyriwr (ac os felly, ni fydd rheidrwydd ar y Brifysgol i'w ddychwelyd i'r myfyriwr ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio).

Ni chaiff myfyrwyr ddod â chyffuriau anghyfreithlon ar gampws, ac ni ddylent ddod i'r campws os ydynt dan eu dylanwad. Bydd y Brifysgol bob amser yn dweud wrth yr heddlu am feddiant, defnydd, cyflenwi a delio mewn cyffuriau, a byddant fel rheol yn trin ymddygiad lle mae cyffuriau yn ffactor fel torri'r Amodau Preswylio hyn yn ddifrifol, fydd yn arwain at derfynu'r Cytundeb Preswylio. Bydd y Brifysgol yn trin camddefnyddio sylweddau fel defnydd o gyffuriau anghyfreithlon.

Rhaid i'r Brifysgol ystyried unrhyw anabledd y gall y myfyriwr fod yn dioddef ohono ac sy'n berthnasol i ymddygiad y myfyriwr wrth benderfynu a dorrwyd yr Amodau Preswylio yn ddifrifol neu yn gyson, ac a ddylid cymryd camau disgyblu.

Gall y Brifysgol gadw mewn cof y defnydd o gyffuriau neu alcohol wrth asesu a dorrwyd yr Amodau Preswylio yn ddifrifol neu yn gyson, ond fel ffactorau sy'n gwaethygu, nid yn lliniaru.

Rhaid i fyfyrwyr gloi drws eu Llety pan adewir ef yn wag, a, lle bo'r Llety ar y llawr isaf, y ffenestri hefyd. Mae myfyrwyr yn gyd-gyfrifol am gadw'r ffenestri yn y Mannau Cyffredin yn ddiogel, ac am gloi drysau fflatiau mewn neuaddau en-suite.

Rhaid i fyfyrwyr gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau rhesymol a roddir gan staff y Brifysgol.

2.11 Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol i'r graddau y bo hyn yn angenrheidiol i osgoi gweithredoedd neu esgeulustod y myfyriwr rhag cael effaith andwyol ar y Brifysgol neu ar berchenogion neu ddeiliaid eiddo cyfagos

Mae unrhyw ymddygiad troseddol yn torri oblygiadau'r myfyriwr yn y Cytundeb Preswylio a gall hefyd fod yn drosedd ddisgyblu dan Reoliadau'r Brifysgol ar Ddisgyblu Myfyrwyr.

Ni fydd y Brifysgol yn oedi cyn cyfeirio materion fel hyn at yr heddlu.

Mae trosedd ddisgyblu dan Reoliadau'r Brifysgol ar Ddisgyblu Myfyrwyr yn awtomatig yn torri'r Cytundeb Preswylio a gall olygu y caiff ei derfynu. Mae hawl gan y Brifysgol i godi tâl ar fyfyrwyr am y colledion a ddaw i'w rhan o ganlyniad i'w hymddygiad.

Mae'n bwysig i fyfyrwyr gofio eu bod yn byw mewn cymuned a bod eu hymddygiad yn effeithio ar eraill. Rhan o addysg yw dysgu parchu ac ystyried eraill, a sylweddoli fod i bopeth a wnawn ganlyniadau.

Y mae gennym rai dyletswyddau a chyfrifoldebau dan gyfraith Cymru a Lloegr i ofalu nad ydym, trwy ein gweithredoedd neu esgeulustod, yn peri anaf i bobl, nac yn difrodi eu heiddo, nac yn eu hatal rhag gwneud eu gwaith arferol dan y gyfraith. Golyga hyn, er enghraifft, na ddylai myfyrwyr wneud cymaint o sŵn fel ei fod yn niwsans i eraill, na ddylent ddefnyddio eu llety yn y fath oedd fel ag i beryglu eraill (er enghraifft gosod pethau trwm ar sil ffenestri, a all ddisgyn ar bennau pobl sy'n pasio heibio, neu ddefnyddio offer trydanol diffygiol), ac ni ddylent gyflawni troseddau.

Tra bo'r Brifysgol yn annog pob myfyriwr i gadw at y gyfraith, nid oes a wnelo â methiant myfyrwyr i gydymffurfio â deddfwriaeth lle bo hyn yn fater hollol breifat nad yw'n effeithio ar y Brifysgol neu fyfyrwyr eraill. Er enghraifft, ni fyddai'r Brifysgol yn ystyried eich bod wedi torri eich cytundeb tenantiaeth petaech yn cael tocyn parcio yn y dref (er y gallech, yn dechnegol, fod wedi torri'r gyfraith) neu pe bai dyfarniad llys sirol yn eich erbyn am beidio â thalu i rywun ar wahân i'r Brifysgol.

2.12 Cydymffurfio â pholisïau, rheolau a rheoliadau'r Brifysgol a fu ar gael yn flaenorol i'r myfyriwr

Mae'r Amodau Preswylio hyn yn disgrifio cytundeb y myfyriwr gyda'r Brifysgol, i'r graddau y mae a wnelo â'u harhosiad yn llety'r brifysgol, a rhan yn unig ydynt o gontract y myfyriwr gyda'r Brifysgol. Y mae gan y myfyriwr rwymedigaethau eraill sy'n berthnasol i holl fyfyrwyr y Brifysgol, nid yn unig y rhai mewn neuaddau, a bydd torri'r rhwymedigaethau hyn yn cael ei drin fel torri'r Amodau Preswylio hyn.

Mae Rheoliadau'r Brifysgol ar Ddisgyblu Myfyrwyr i'w gael yn y Llawlyfr Myfyrwyr ac ar gael hefyd ar-lein: http://www.bangor.ac.uk/ar/main/ssc/docs/stuguide.pdf

Mae polisïau'r Brifysgol ar iechyd a diogelwch, aflonyddu a chyfle cyfartal i'w cael yn y Llawlyfr Myfyrwyr ac ar gael hefyd ar-lein: http://www.bangor.ac.uk/ar/main/ssc/docs/stuguide.pdf

2.13 Peidio ag achosi unrhyw niwsans, tramgwydd, tarfu, aflonyddu neu ymyrryd cyson ag eraill

Rhaid i fyfyrwyr ystyried trigolion eraill ac ni ddylent wneud unrhyw sŵn y gellir ei glywed o'r tu allan i'w hystafell neu o'r tu allan i'r gegin neu'r ystafell ymolchi a rennir, ac oherwydd hyn, ni chaniateir i fyfyrwyr gael partïon yn eu neuadd. Bydd y Brifysgol yn trin sŵn a wneir rhwng 11.00pm a 7.00am fel niwsans sŵn difrifol. Gall niwsans sŵn difrifol neu gyson arwain at gamau disgyblu, ac y maent yn sail i'r Brifysgol derfynu'r Cytundeb Preswylio.

Dylai myfyrwyr fod yn arbennig o ofalus yn yr haf, pan fydd ffenestri'n agored, ac ar adegau eraill o'r flwyddyn pa fydd arholiadau'n cael eu cynnal, a gofalu nad yw sŵn yn tarfu ar eraill.

Y mae aflonyddu'n drosedd, a gall y Brifysgol gyfeirio achosion o aflonyddu at yr heddlu. Edrychir ar aflonyddu fel achos difrifol o dorri'r Amodau Preswylio.

2.14 Peidio â dod ag unrhyw anifail i'r Llety oni bai ei fod yn gymorth i rywun anabl

Gofynnir i fyfyrwyr hysbysu'r Brifysgol ymlaen llaw os oes ganddynt anifail cymorth, gan y bydd yn rhaid i'r Brifysgol, efallai, wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer.

Ni ddylai myfyrwyr fwydo anifeiliaid sydd wedi crwydro nac anifeiliaid gwyllt, gan fod hyn yn eu hannog i ddod i mewn i'r adeilad.

At ddiben yr amod hwn, mae "anifail" yn cynnwys ymlusgiaid, adar, pysgod, pryfed, mamaliaid ac unrhyw beth nad yw'n fod dynol, yn blanhigyn neu yn ddifywyd.

2.15 Peidio â dod ag unrhyw gerbyd ar y campws heb drwydded ddilys gan y Brifysgol

Rheolir parcio cerbydau gan drwyddedau ac mae nifer gyfyngedig o drwyddedau ar gael. Bydd gwybodaeth ar sut i wneud cais am drwydded barcio ar gael i fyfyrwyr ar y fewnrwyd. Ond, gellwch hefyd ymweld â'r swyddfa Ystadau, neu ffonio yno, i wneud ymholiadau - 01248 382554.

Ni ddylai myfyrwyr gadw rhannau cerbydau modur yn yr adeilad.

Ni ddylai myfyrwyr farchogaeth na pharcio beiciau modur ar lwybrau troed ac ni ddylent fynd â hwy i mewn i unrhyw adeilad.

Ni ddylai myfyrwyr gadw beiciau mewn unrhyw adeilad oni bai ei fod yn lle pwrpasol ar gyfer hynny.

Gall y Brifysgol symud unrhyw feic, beic modur neu rannau cerbyd a geir yn ystod archwiliad (rhoddir derbynneb fel y gall yr eiddo gael ei ddychwelyd i'r perchennog ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio). Gall y Brifysgol ryddhau beic neu feic modur cyn diwedd Cyfnod Preswylio os bydd y myfyriwr yn talu £25 o ffi rhyddhau a ffi weinyddu (ond nid oes rheidrwydd arni i wneud hyn).

Gall methu â chydymffurfio ag amodau'r drwydded beri bod y Myfyriwr yn agored i gamau disgyblu dan reoliadau parcio'r Brifysgol neu Reoliadau'r Brifysgol ar Ddisgyblu Myfyrwyr.

2.16 Peidio â defnyddio'r Llety at unrhyw ddiben ond fel llofft a lle astudio

Ni chaiff myfyrwyr redeg unrhyw fusnes o'u Llety.

2.17 Peidio â rhannu'r Llety na'i is-osod na throsglwyddo'r ddeiliadaeth i unrhyw un arall

Llety addas ar gyfer un yn unig yw'r Llety ac ni chaniateir i ddau fyw yn yr un llety. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn sylweddoli y bydd rhai myfyrwyr eisiau dod â ffrindiau yn ôl i'w llety ac y byddent efallai eisiau aros dros nos. Nod y Brifysgol yw creu a chynnal lle byw cytûn i bob myfyriwr preswyl a bydd cael cydweithrediad pob myfyriwr preswyl yn gymorth i ni sicrhau hyn. Felly, o bryd i'w gilydd mae'n bosib y gwnawn ganiatáu i aelod o'r teulu neu ffrind rannu ystafell myfyriwr am ddwy noson yn olynol ar y mwyaf mewn cyfnod o 7 niwrnod. Mae'n RHAID i breswylwyr roi gwybod i'w cyd-breswylwyr/rhai sy'n rhannu'r llety os ydynt yn bwriadu cael rhywun i aros dros nos, ac os yw cyd-breswylydd yn gwrthwynebu, bydd rhaid cymryd ei deimladau i ystyriaeth. Dylai preswylwyr fod yn arbennig o sensitif mewn coridorau i ferched yn unig neu i ddynion yn unig wrth ystyried gwahodd gwesteion o'r rhyw arall i aros dros nos. Dylai preswylwyr gofrestru enwau eu gwesteion trwy lenwi'r ffurflen electronig sydd ar gael yma www.bangor.ac.uk/accommodation <http://www.bangor.ac.uk/accommodation> cyn i'w gwesteion gyrraedd.

Mae myfyrwyr yn gyfrifol am eu hymwelwyr, ac y mae hyn yn cynnwys bod yn atebol am unrhyw ddifrod y maent yn ei achosi. Mae'n bosib y bydd rhaid i westeion adael yr adeilad ar unrhyw adeg yn ôl disgresiwn yr Uwch Wardeiniaid neu'r Staff Diogelwch lle ystyrir eu bod yn ymddwyn mewn modd amhriodol neu'n achosi aflonyddwch i drigolion eraill. Mae'n rhaid i breswylwyr sicrhau bod eu gwestai'n ymwybodol o'r drefn gwagio adeilad mewn achos o dân.

Ni chaiff myfyrwyr gyfnewid ystafelloedd heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol staff Swyddfa'r Neuaddau. Bydd y Brifysgol yn codi £25 o ffi weinyddol am gyfnewid ystafelloedd gydag awdurdod. Bydd y Brifysgol fel rheol yn trin cyfnewid ystafell heb awdurdod fel mater disgyblu.

Mae caniatâd i fyfyrwyr mewn llety a ddynodwyd fel llety teulu i rannu eu Llety gyda'r Preswylwyr a Ganiateir a enwir ar eu Cytundeb Preswylio. Rhaid i fyfyrwyr hysbysu'r Brifysgol am unrhyw un sy'n gadael eu haelwyd, neu'n ymuno â hi, ac ni ddylent fynd dros uchafswm nifer y preswylwyr a ganiateir ar gyfer pob tŷ neu fflat i deulu.

2.18 Anfon yn syth at y Brifysgol gopi o unrhyw ohebiaeth a dderbynia'r myfyriwr sy'n debyg o effeithio ar y llety neu'r adeilad

Nid yw'n debygol y bydd myfyrwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth swyddogol am y llety neu'r adeilad, ond os gwnânt, mae'n bwysig anfon y ddogfen yn syth at y Swyddfa Neuaddau.

2.19 Dychwelyd pob allwedd a cherdyn mynediad at y Brifysgol ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio â pheidio datgelu codau mynediad diogelwch i neb

Mae codau diogelwch ar lawer o ddrysau allanol yr adeiladau, a chaiff myfyrwyr wybod beth yw'r rhain pan fyddant yn dod i gasglu eu hallweddi. Ni ddylai myfyrwyr ddatgelu'r codau mynediad hyn i neb, na gadael neb i mewn i'r adeilad onid yw'n rhywun a awdurdodwyd gan y Brifysgol sydd wedi dangos tystiolaeth o'r awdurdod hwnnw. Ni ddylai myfyrwyr ysgrifennu'r codau mynediad yn unman. Os datgelir y cod mynediad, dylai'r myfyriwr dan sylw roi adroddiad am hyn i'r Swyddfa Neuaddau.

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw allweddi a chardiau mynediad o'r funud y maent yn eu casglu. Ni ddylid gwneud copïau o allweddi, ac argymhellir bod y myfyrwyr yn tynnu'r darn sy'n dangos rhif yr ystafell (gan ei gadw i'w roi i mewn gyda'r allwedd ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio).

Os bydd myfyriwr yn cloi ei hun allan o'i ystafell, gall y Staff Diogelwch agor y drws iddo. Os bydd myfyriwr yn cloi ei hun allan o'i ystafell, bydd un o'r porthorion yn agor ei ystafell. Ar hyn o

bryd agorir eu hystafell i fyfyrwyr ar 2 achlysur cyn y codir tâl arnynt. Rhoddir manylion i fyfyrwyr pan fyddant yn cyrraedd. Gall cloi eich hunain allan yn aml arwain at achos disgyblu. Rhaid dweud wrth y Swyddfa Neuaddau cyn gynted ag y bo modd fod yr allwedd ar goll. Codir £15 am allwedd neu gerdyn allwedd newydd ar hyn o bryd. Os ystyria'r Brifysgol yn rhesymol fod angen newid y cloeon, codir costau llawn gwneud hynny ar y myfyriwr.

Os na fydd myfyrwyr yn rhoi eu hallweddi i mewn ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio (neu pan adewir y llety dros gyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Pasg), efallai y codir arnynt Dâl Preswylio am bob wythnos neu ran o wythnos y cedwir yr allwedd neu, os archebwyd yr ystafell am gynhadledd, cyfradd ystafell am gynhadledd o £25 y noson. Bydd y Brifysgol hefyd yn codi £10 am bob nodyn atgoffa ysgrifenedig yn gofyn am ddychwelyd yr allweddi. Os na ddychwelwyd yr allweddi o fewn wythnos ar ôl diwedd y Cyfnod Preswylio, gellir newid y cloeon a chodir union gost gwneud hynny ar y myfyriwr.

Gwaetha'r modd, ni all y Brifysgol gynnig unrhyw gyfleusterau storio dros UNRHYW gyfnod gwyliau.

Os bydd myfyriwr yn dychwelyd ei allweddi i'r Brifysgol hanner ffordd rhwng y Cyfnod Preswylio, ni fydd hynny'n dod â'r Cytundeb Preswylio i ben, a bydd atebolrwydd y myfyriwr i dalu'r Ffioedd Preswylio yn parhau hyd nes terfynir y Cytundeb Preswylio. Yr unig ffordd i derfynu'r Cytundeb Preswylio yn gynnar yw trwy i'r myfyriwr ddilyn amod 5.

2.20 Talu i'r Brifysgol bob cost a ddaw yn rhesymol i'w rhan wrth orfodi ymrwymiadau myfyriwr neu sy'n codi o'u torri gan gynnwys ffi weinyddu o rhwng £10 a £25, yn dibynnu ar natur y tor-amod, a beth sydd ei angen i'w orfodi

Os bydd y myfyriwr yn torri'r Amodau Preswylio hyn, mae gan y Brifysgol hawl i adennill gan y myfyriwr gostau iawn a rhesymol unioni pethau. Er enghraifft, os metha'r myfyriwr dalu'r Tâl Preswylio ar y Dyddiad Talu, y canlyniad yw bod y Brifysgol yn gorfod anfon nodiadau atgoffa at y myfyriwr, bod y Brifysgol yn colli llog ar yr arian, ac yn y pen draw, hwyrach y bydd yn rhaid i'r Brifysgol gymryd cyngor cyfreithiol a mynd i'r llys i gael yr arian yn ôl a symud y myfyriwr allan. Mae gan y Brifysgol hawl i iawn am y canlyniadau hyn, ac i adennill ôl-ddyledion rhent, ei chostau gweinyddol priodol am amser staff yn mynd ar ôl y ddyled, a chost cyngor cyfreithiol a mynd i'r llys.

3 Rhwymedigaethau'r Brifysgol

3.1 Darparu'r Gwasanaethau

Dyma'r gwasanaethau a gynhwysir yn y Tâl Preswylio:

(a) trwsio'r adeilad
(b) yswirio'r adeilad
(c) darparu cyflenwad trydan i'r Adeilad
(d) gwresogi a goleuo'r Adeilad
(e) darparu dŵr poeth ac oer rhedegog i'r Adeilad
(f) cael gwared ar sbwriel a roddwyd yn y cynhwysyddion priodol
(g) glanhau'r Mannau Cyffredin yn rheolaidd
(h) staff preswyl a diogelwch

Mewn Llety ag arlwy, mae'r Tâl Preswylio hefyd yn cynnwys brecwast a swper o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae peiriannau golchi sy'n gweithio â darnau arian ar gael ar bob safle.

Hefyd ar gael am gost ychwanegol mae pecynnau dillad gwely - *duvet*, gorchudd *duvet*, cynfasau, gobennydd a gorchudd gobennydd.

Nid yw'r Brifysgol yn atebol am unrhyw fethiant neu ddiffyg yn y Gwasanaethau oni bai i hyn gael ei achosir drwy esgeulustod y Brifysgol.

3.2 Rhoi'r Llety a'r Cynnwys yn y cyflwr a ddisgrifir ar ddechrau'r Cyfnod Preswylio ar yr amod fod y myfyriwr wedi crybwyll unrhyw nam neu ddiffyg o fewn 7 niwrnod o gychwyn y Cyfnod Preswylio

Bydd y Brifysgol yn gwneud unrhyw waith trwsio neu adnewyddu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

3.3 Ac eithrio mewn argyfwng, neu ar gyfer gwaith trwsio y rhoddwyd gwybod amdano, ymdrechu'n rhesymol i roi i'r Myfyriwr o leiaf 24 awr o rybudd cyn dod i mewn i'r Llety

Ni hysbysir unigolion, ond fe fydd y Brifysgol yn ceisio gofalu y rhoddir hysbysiadau am ymweliadau cynnal ac archwiliadau ystafell arferol (drwy e-bost fel rheol), ond ni fydd y rhain yn nodi union amser ar gyfer pob ystafell. Lle, wedi archwiliad ystafell, y gofynnir i Fyfyriwr gymryd camau unioni, hysbysir y myfyriwr bryd hynny a fydd archwiliad arall, a bydd yr archwiliad pellach o leiaf 24 awr wedi rhoi'r rhybudd. Fodd bynnag, ni fydd y Brifysgol yn nodi dyddiad nac amser penodol ar gyfer archwiliad o'r fath. Gall y Brifysgol, lle mae ganddynt reswm dros gredu fod myfyriwr yn torri'r Amodau Preswylio hyn neu lle maent yn rhesymol bryderu am iechyd neu les myfyriwr, fynd i'r Llety heb rybudd ymlaen llaw.

3.4 Peidio â tharfu mwy na sy'n rhesymol angenrheidiol ar fyfyrwyr yn eu llety

Bydd y Brifysgol yn ymdrechu'n rhesymol i wneud gwaith cynnal a chadw yn ystod y gwyliau lle bo hynny'n ymarferol.

Ni wneir archwiliadau ystafelloedd fel rheol fwy na 3 gwaith y flwyddyn, oni fydd gan y Brifysgol achos rhesymol dros gredu fod y Myfyriwr yn torri'r Amodau Preswylio.

3.5 Peidio â datgelu gwybodaeth bersonol a gafwyd gan y myfyriwr ac eithrio fel y caniateir gan yr Amodau Preswylio hyn neu lle mae perygl difrifol o niwed i'r myfyriwr, neu eraill, neu i eiddo'r Brifysgol

Mae Amod 4.2 yn rhoi hawl i'r Brifysgol ddefnyddio data personol myfyrwyr at bob diben cyfreithlon yng nghyswllt y Cytundeb Preswylio (gan gynnwys adennill dyledion, atal troseddau, mesur boddhad a cheisio sicrhau cymysgedd cywir o fyfyrwyr yn yr Adeilad) neu lle bo perygl difrifol o niwed i'r Myfyriwr neu eraill neu i eiddo'r Brifysgol.

Mae rheolau arbennig yn ôl y gyfraith ar gyfer myfyrwyr ag anableddau sydd yn gofyn yn benodol am gadw gwybodaeth am eu hanabledd yn gyfrinachol.

4 Amodau Eraill

4.1 Mae'r Myfyriwr yn gyfrifol am ymddygiad unrhyw westai/westeion a wahoddir.

4.2 Mae'r Myfyriwr trwy hyn yn rhoi hawl i'r Brifysgol ddefnyddio ei d/ddata personol at bob diben cyfreithlon yng nghyswllt y Cytundeb Preswylio (gan gynnwys adennill dyledion, atal troseddau,

mesur boddhad a cheisio sicrhau cymysgedd cywir o fyfyrwyr yn yr Adeilad) neu lle bo perygl difrifol o niwed i'r Myfyriwr neu eraill neu i eiddo'r Brifysgol.

4.3 Nid yw'r Brifysgol yn atebol am golled neu ddifrod i bobl neu eiddo oni achosir y golled neu'r difrod trwy esgeulustod y Brifysgol, neu trwy dorri ei hymrwymiadau yn yr Amodau Preswylio hyn.

4.4 Nid oes rheidrwydd ar y Brifysgol i drwsio unrhyw ddifrod a achosir gan y Myfyriwr oni fydd yr yswiriant yn talu'r gost (gyda'r Myfyriwr yn talu unrhyw weddill ar y polisi) neu gan y Myfyriwr.

4.5 Gall y Brifysgol drin torri ymrwymiadau'r Myfyriwr yn yr Amodau Preswylio hyn fel mater disgyblu yn ogystal â thor contract.

4.6 Mae gan y Brifysgol yr hawl i symud o'r Llety neu'r Mannau Cyffredin unrhyw beth sy'n peri rhwystr neu berygl tân neu iechyd a diogelwch ond (oni fydd yn bydradwy), bydd yn ei ddychwelyd at y Myfyriwr adeg terfynu'r Cytundeb Preswylio.

4.7 Rhaid i hysbysiadau a roddir dan y Cytundeb Preswylio fod yn ysgrifenedig a chyfeiriad y Brifysgol ar gyfer cyflwyno yw'r Swyddfa Neuaddau, Safle Ffriddoedd, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2GP.

4.8 Ni fwriedir i'r Cytundeb Preswylio roi unrhyw fudd i unrhyw un nad yw'n rhan ohono.

4.9 Mae'r Cytundeb Preswylio (gan gynnwys yr Amodau Preswylio hyn, ac unrhyw bolisïau neu reoliadau a gyflëwyd i'r Myfyriwr cyn dyddiad y Cytundeb Preswylio) yn cynnwys yr holl delerau y cytunodd y Brifysgol a'r Myfyriwr arnynt pan ddaw i rym, a bydd unrhyw amrywiad i'r telerau yn dod i rym yn unig os cytunir arnynt rhwng y Myfyriwr ac aelod o staff Swyddfa Neuaddau'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn cadarnhau unrhyw amrywiad y cytunir arno i'r Myfyriwr yn ysgrifenedig adeg gwneud yr amrywiad.

4.10 Gall naill ai'r Brifysgol neu'r Myfyriwr gyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch y Cytundeb Preswylio at yr Is-grŵp Neuaddau ac Arlwyo, sy'n cyfarfod tair gwaith y flwyddyn.

4.11 Gall myfyrwyr sy'n anhapus â'r llety a neilltuwyd iddynt roi eu henwau ar restr aros i symud i ystafell arall. Ni fydd y rhestr aros ar gael tan AR ÔL ail neu drydedd wythnos Semester 1. Caiff y dyddiad ei hysbysebu yn Swyddfa'r Neuaddau. Dylai myfyrwyr nodi yr ychwanegir tâl o £25 i'w cyfrif ar gyfer gweinyddu a glanhau pan fyddant yn symud i ystafell wahanol.

5 <u>Terfynu'r Cytundeb Preswylio</u>

5.1 **Cyrraedd yn hwyr** – dylid darllen yr amod hwn ar y cyd ag amod 2.2 am Flaendaliadau a chanslo:

(a) Oni fydd y Myfyriwr wedi gwneud trefniadau gyda'r Brifysgol i gyrraedd yn hwyr, a'i fod wedi talu i'r Brifysgol randaliad cyntaf y Tâl Preswylio, daw'r Cytundeb Preswylio yn awtomatig i ben os na ddaeth y Myfyriwr i'r llety o fewn 4 diwrnod o ddechrau'r Cyfnod Preswylio.

(b) Lle terfynir y Cytundeb Preswylio yn awtomatig, ni ad-delir y Blaendal oni fo'r Myfyriwr yn dod o fewn un o'r eithriadau a ddisgrifir yn amod 2.2.

5.2 **Terfynu gan y Brifysgol**

Gall y Brifysgol derfynu, neu atal am uchafswm o 28 diwrnod, y Cytundeb Preswylio ar unrhyw adeg trwy gyflwyno rhybudd i'r Myfyriwr (ond nid oes rheidrwydd i wneud hyn) os

(a) yw unrhyw dâl yn ddyledus ers 28 diwrnod neu fwy neu os

(b) yw'r Myfyriwr yn ddifrifol neu yn gyson yn torri unrhyw rai o ymrwymiadau'r Myfyriwr a ddisgrifir yn yr Amodau Preswylio hyn

(c) nad oes i'r Myfyriwr statws fel myfyriwr cofrestredig o'r Brifysgol

(d) ym marn resymol y Brifysgol fod iechyd neu ymddygiad y Myfyriwr yn berygl difrifol iddo ef/hi ei hun neu eraill neu i eiddo'r Brifysgol neu eraill.

Gall cyfnod y rhybudd amrywio, yn ôl y rheswm dros derfynu.

5.3 Terfynu gan y Myfyriwr

Gall y Myfyriwr derfynu'r Cytundeb Preswylio unrhyw adeg trwy gyflwyno rhybudd i'r Brifysgol (wedi'i gyfeirio at y Swyddfa Neuaddau) i gyrraedd cyn 31 Awst cyn cychwyn y Cyfnod Preswylio.

Wedi 31 Awst gall y Myfyriwr derfynu'r Cytundeb Preswylio trwy gydymffurfio â'r cyfan o'r amodau isod

(a) cyflwyno rhybudd i'r Brifysgol (wedi'i gyfeirio at y Swyddfa Neuaddau) yn gofyn am derfynu cynnar

(b) cydymffurfio â holl ymrwymiadau'r Myfyriwr hyd at y dyddiad terfynu;

(c) talu ffi (o £50 lle mae'r Brifysgol yn cael myfyriwr yn ei le neu £25 lle mae'r Myfyriwr yn cael myfyriwr yn ei le) tuag at gostau'r Brifysgol o weinyddu a glanhau'r ystafell

Os cydymffurfir â'r holl amodau hyn, rhyddheir y Myfyriwr o'r Cytundeb Preswylio ar y dyddiad pryd y bydd myfyriwr arall nad yw eisoes yn llety'r Brifysgol, ac sy'n rhesymol dderbyniol i'r Brifysgol, yn dod i gytundeb am weddill y Cyfnod Preswylio.

Bydd y Brifysgol yn cynghori'r Myfyriwr os oes myfyriwr arall ar y rhestr aros ar hyn o bryd, ond ni ddylai'r myfyriwr gymryd yn ganiataol y bydd rhywun ar gael i gymryd ei le.

Dylai myfyrwyr fod yn gwbl ymwybodol o natur **ymrwymol gyfreithiol** y Cytundeb Preswylio ac ni ddylent arwyddo unrhyw gontract neu gytundeb yn ymwneud â llety ag unrhyw bartïon eraill nes eu bod wedi cael eu rhyddhau'n ffurfiol o'u Cytundeb Preswylio. NI YSTYRIR unrhyw gontract neu gytundeb o'r fath â phartïon eraill yn rheswm dros dorri'r Cytundeb Preswylio.

Weithiau mae gan y Brifysgol ystafelloedd gwag eisoes. Gall y Brifysgol osod yr ystafelloedd hynny i fyfyrwyr ar eu rhestr aros, neu i'r tenant arall a ddarperir gan y myfyriwr sy'n dymuno terfynu eu Cytundeb Preswylio, cyn neilltuo'r ystafell yn perthyn i'r myfyriwr sy'n dymuno terfynu eu Cytundeb Preswylio.

Nid oes raid i'r Myfyriwr gydymffurfio ag amodau (a) i (c) os mai'r rheswm dros derfynu yw tor-amod difrifol o ymrwymiadau'r Brifysgol.

Os bydd y Myfyriwr yn rhoi ei h/allweddi i'r Brifysgol cyn i'r myfyriwr arall arwyddo'r Cytundeb Preswylio, mae'r Myfyriwr yn parhau'n atebol am y Tâl Preswylio hyd nes daw'r Cytundeb Preswylio newydd i rym. Os bydd myfyriwr yn dychwelyd ei allweddi a dim

myfyriwr newydd i gymryd y denantiaeth yn ei le, cedwir yr allweddi'n ddiogel yn unig ac ni fydd y myfyriwr yn cael ei ryddhau o'r Cytundeb Preswylio.

5.4 Os terfynir y Cytundeb Preswylio yn gynnar naill ai gan y Brifysgol neu'r Myfyriwr, bydd y Brifysgol yn ad-dalu cyfran deg o Rent a dalwyd eisoes (wedi tynnu symiau priodol i dalu am golledion) cyn gynted ag y bo modd wedi i'r terfynu ddod i rym. Os terfyna'r Brifysgol dan gymal 5.2 am unrhyw reswm ac eithrio iechyd y Myfyriwr, ad-delir Rhent a dalwyd eisoes yn unig am y cyfnod y gall y Brifysgol ailosod y Llety, ac wedi gwneud hynny.

5.5 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i symud y Myfyriwr i lety tebyg arall gan y Brifysgol yn ystod Cyfnod Preswylio lle bo'n rhesymol gwneud hynny, ond oni bai mai'r rheswm am y symud yw bod y Myfyriwr wedi torri un neu fwy o'i ymrwymiadau yn y Cytundeb hwn, bydd gan y Myfyriwr yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn (heb orfod cydymffurfio â'r amodau yng nghymal 5.3) yn lle symud.

© 2011 held jointly by Bangor University and Denison Till Solicitor, York

285 NWR Residence Conditions Cymraeg 5 wf